JAMES, THOMAS ('Llallawg '; 1817 - 1879), clerigwr, hynafiaethydd, ac eisteddfodwr

Enw: Thomas James
Ffugenw: Llallawg
Dyddiad geni: 1817
Dyddiad marw: 1879
Priod: Jane James (née Hammett)
Rhiant: Ann James
Rhiant: Abraham James
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr, hynafiaethydd, ac eisteddfodwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Daniel Williams

Ganwyd ym Manordeifi, Sir Benfro, 21 Awst 1817. Urddwyd ef yn ddiacon yn 1840 ac yn offeiriad yn 1841; yn siroedd Amwythig (Much Wenlock) a Derby yr oedd ei guradiaethau cyntaf. Ar berswâd Lewis Jones, Almondbury, aeth i swydd Efrog yn 1846 a bu'n ficer All Saints, Netherthong, am 33 mlynedd. Bu'n r sengl hyd 1870 pryd y priododd Jane, merch William Hammett, Appledore Court, Dyfnaint; bu hi farw yn 1872. Cywirodd waith llyfryddol ' Gwilym Lleyn ' droeon. Yr oedd yn F.S.A. ac yn un o sylfaenwyr y Cambrian Archaeological Association (*Archæologia Cambrensis*, 1846, 463-5). Yr oedd yn un o bileri yr ' Association of Welsh Clergy in the West Riding of the County of York.' Heblaw ysgrifennu cofiant i Joseph Hughes ('Carn Ingli') a Lewis Jones, Almondbury, anfonai ysgrifau i'r *Haul* a'r Bye-Gones. Mynychai'r eisteddfod a bu'n feirniad droeon. Efe a dau arall a fu'n cloriannu ' *Barddas* ' John Williams ('Ab Ithel') a gyhoeddwyd yn 1862 gan y Welsh MSS. Society. Lluniwyd ' Cerdd Goffa ' i ' ddau wladgarwr ' yn eisteddfod 1880 - ' Llallawg ' ydyw un ohonynt. Brawd iddo oedd David James ('Dewi o Ddyfed'). Bu farw 3 Awst 1879 a chladdwyd ym mynwent Netherthong.

Awdur

Y Parchedig Daniel Williams, (1878 - 1968)

Ffynonellau

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1879, 261

Centenary of All Saints Church, 1830-1930, Netherthong

Reports of the Proceedings of the Association of Welsh Clergy in the West Riding of the County of York (1853?–6), 1852-6

C. A. Hulbert, *Annals of the Church and Parish of Almondbury, Yorkshire* (Llundain 1882-85)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734471

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu